

Canslo ffracsiynau

Gall canslo ffracsiynau yn eich cyfrifiad wneud eich cyfrifiad yn llawer haws a gallai olygu nad oes angen i chi wneud unrhyw raniad penodol.

Gallwch ddal i ganslo i lawr nes bod eich ffracsiwn yn ei delerau isaf ond unwaith y byddwch chi'n cael ffracsiwn gyda 10, 100 neu 1000 ar y gwaelod mae'n hawdd ei droi'n ddegol.

Ffactor	Enghraifft
<p>10</p> <p>Canslo i lawr erbyn 10 yw'r hawsaf gan ei fod yn cael ei wneud trwy groesi seroau (0's). Sicrhewch fod pob sero rydych chi'n ei groesi i ffwrdd ar ben eich ffracsiwn yn cael ei gyfateb â sero ar y gwaelod.</p>	$\frac{10}{20} = \frac{\cancel{10}}{\cancel{20}} = \frac{1}{2} = 0.5$ $\frac{700}{1000} = \frac{\cancel{700}}{\cancel{1000}} = \frac{7}{10} = 0.7$
<p>5</p> <p>Lluosrifau o 5 yw'r rhai hawsaf nesaf i'w gweld gan eu bod nhw'n gorffen gyda 5 neu sero.</p>	$\frac{35}{500} = \frac{\cancel{35}^7}{\cancel{500}_{100}} = \frac{7}{100} = 0.07$
<p>2</p> <p>Os oes eilrif ar dop a gwaelod y ffracsiwn wedyn rhannwch â 2.</p>	$\frac{6}{20} = \frac{\cancel{6}_3}{\cancel{20}_{10}} = \frac{3}{10} = 0.3$
<p>4</p> <p>Os ydych chi eisiau rhannu â 4, weithiau mae'n haws hanneri eich gwerth a hanneri eto.</p>	$\frac{16}{40} = \frac{\cancel{16}_8}{\cancel{40}_{20}} = \frac{\cancel{8}_4}{\cancel{20}_{10}} = \frac{4}{10} = 0.4$
<p>3</p>	$\frac{9}{27} = \frac{\cancel{9}_3}{\cancel{27}_9} = \frac{\cancel{3}_1}{\cancel{9}_3} = \frac{1}{3} = 0.33$ <p style="text-align: right;">(i'r ganfed agosaf)</p>
<p>7</p>	$\frac{14}{49} = \frac{\cancel{14}_2}{\cancel{49}_7} = \frac{2}{7}$ <p style="text-align: right;">(bydd angen i chi ddefnyddio rhaniad o hyd i gyfrifo hyn fel degol ond byddai'r niferoedd rydych chi'n delio â nhw yn llawer llai)</p>
<p>11</p>	$\frac{44}{66} = \frac{\cancel{44}_4}{\cancel{66}_6} = \frac{4}{6} = \frac{2}{3} = 0.67$ <p style="text-align: right;">(i'r ganfed agosaf)</p>

Ymarfer

Mynegwch y ffracsiynau hyn fel gwerthoedd degol:

1. $\frac{100}{1000}$

2. $\frac{25}{500}$

3. $\frac{4}{5}$

4. $\frac{12}{16}$

5. $\frac{6}{30}$

6. $\frac{21}{70}$

7. $\frac{750}{2500}$

8. $\frac{180}{300}$

9. $\frac{200}{150}$

10. $\frac{15}{45}$

11. $\frac{300}{500}$

12. $\frac{27}{25}$

Atebion

Gall fod mwy nag un ffordd o gyrraedd ateb. Ar yr amod eich bod yn cael y gwerth cywir, nid oes ots sut y gwnaethoch gyrraedd.

<p>1. Croeswch seroau</p> $\frac{100}{1000} = \frac{1}{10}$ $= 0.1$	<p>2. Rhannwch drwodd â 5</p> $\frac{25}{500} = \frac{5}{100}$ $= 0.05$	<p>3. Lluoswch drwodd â 2 i wneud 10 ar y gwaelod</p> $\frac{4}{5} = \frac{8}{10}$ $= 0.8$
<p>4. Rhannwch drwodd â 4</p> $\frac{12}{16} = \frac{3}{4}$ $= 0.75$	<p>5. Rhannwch drwodd â 3</p> $\frac{6}{30} = \frac{2}{10}$ $= 0.2$	<p>6. Rhannwch drwodd â 7</p> $\frac{21}{70} = \frac{3}{10}$ $= 0.3$
<p>7. Croeswch sero yna rhannwch â 25</p> $\frac{750}{2500} = \frac{75}{250} = \frac{3}{10}$ $= 0.3$	<p>8. Croeswch seroau yna rhannwch â 3</p> $\frac{180}{300} = \frac{18}{30} = \frac{6}{10}$ $= 0.6$	<p>9. Mae'r nifer ar y top yn fwy na'r gwaelod felly rydyn ni'n disgwyl gwerth sy'n fwy nag 1</p> <p>Croeswch sero yna rhannwch â 5</p> $\frac{200}{150} = \frac{20}{15} = \frac{4}{3} = 1\frac{1}{3}$ $= 1.3 \text{ i'r degfed agosaf}$
<p>10. Rhannwch drwodd â 15</p> $\frac{15}{45} = \frac{1}{3}$ $= 0.33 \text{ i'r ganfed agosaf}$	<p>11. Croeswch sero a'i luosi â 2</p> $\frac{300}{500} = \frac{3}{5} = \frac{6}{10}$ $= 0.6$	<p>12. Mae'r nifer ar y top yn fwy felly disgwylwch werth sy'n fwy nag 1</p> <p>Lluoswch drwodd â 4 i wneud 100 ar y gwaelod</p> $\frac{27}{25} = \frac{108}{100}$ $= 1.08$